CYNGOR CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL

**30.6.22**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Caffi'r Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** DAW (Cadeirydd);JAJ; TAJ; RJ; DP; JOJ; AR; IW;EO;<br>**Ymddiheuriadau:** GW; LLMH;<br>**Mynychu:** SWR ; Cyng. Jackie Lewis<br>Croesawodd y Cadeirydd y Cyng Jackie Lewis i'w chyfarfod cyntaf o'r Cyngor hwn. |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DW ddiddordeb yn Eitem 5 Materion Cyllidol.<br>. |
| **3** | **Cyfethol Seddi gwag ac ethol Is-Gadeirydd**<br>Nododd AR nad oedd ei merch Rwth Roberts am ymgeisio gan ei bod wedi ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol yn ei gwaith.<br>Adroddodd y Clerc am y broses gyfethol. Gan mai dau enw sydd i law bellach am ddwy sedd wag ni fydd angen pleidleisio. Er hynny, cytunwyd i ofyn i'r ddwy sydd â diddordeb i gyflwyno cais ffurfiol yn amlinellu eu cefndir a'u penderfyniad dros y cyflwyno. Clerc i weithredu a rhannu'r wybodaeth dros e-bost pan ddaw i law ac, os yn dderbyniol i bawb, eu derbyn yn ffurfiol a'u gwahodd i gyfarfod mis Gorffennaf.<br>Cynigiwyd JOJ yn Is-Gadeirydd gan JAJ ac fe eiliwyd gan AR gyda chytundeb unfrydol yr aelodau. Derbyniodd JOJ y swyddogaeth. Cynigiwyd AR fel Is-Gadeirydd wrth gefn ac fe eiliwyd gan IW - derbyniodd AR a chefnogwyd yn unfrydol.<br>Cadarnhaodd Cyng JL mai hi yw'r unig Gynghorydd lleol sydd wedi ei phenodi ar Bwyllgor Cynllunio CSYM. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| **4** | **Cofnodion 12.5.22**<br><br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 12 Mai 2022 fel rhai cywir (DP/AR)<br><br>b) Materion yn codi<br><br>**Dalgylch Rhodogeidio** – nododd y Clerc ei bod wedi holi Swyddfa Etholiadau CSYM am terfyn ffurfiol Ward Rhodogeidio. Derbyniodd arweiniad i anfon ebost at y Swyddog Etholiadau fel y gall ymchwilio i'r cais.<br><br>**Trwshio'r Cloc -**<br><br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi holi Cyngor Fali sydd wedi bod yn ymchwilio i drwsio Cloc y pentref, a nododd bod y gost rhy uchel i gario 'mlaen. Cafodd y Clerc fanylion cwmni o swydd Derby ac mae wedi cael pris 'galw allan' o £650 fydd yn cael ei ad-dalu os byddent yn gallu trwsio'r cloc. Nododd EO ei fod wedi trafod gyda Peter Rowe Llangefni, a wnaeth waith dro yn ôl ar y Cloc ac mai ei gyngor oedd peidio newid wyneb y cloc i geisio gosod un trydan/batri. Cytunwyd i'r Cadeirydd a'r Clerc wneud rhagor o waith ymchwil (h.y. holi oes unrhyw un a diddordeb mewn weindio'r cloc am gydnabyddiaeth ariannol; oes modd gosod ysgol addas; holi Niwbwrch/Gwalchmai) ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 30.6.22 |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>**JAJ –** ategodd y croeso i'r Cyng Jackie Lewis.<br><br>- Arwydd 'No through road' i fynd tuag at fferm Gwredog ger croesfan Bryn Garth angen ei ail-osod<br><br>**AR –** mynegodd bryder am y groesfan ar y Stryd Fawr – diffyg golau a gwelededd addas yn arbennig pan fo ceir wedi parcio yn agos at y groesfan. Nodwyd bod hyn wedi ei drafod yng nghyfarod Adran Priffyrdd nos Lun diwethaf a bydd cynnydd ar yr holl bwyntiau gweithredu yn cael ei ddilyn fyny yn rheolaidd rhwng y Swyddogion a'r Clerc.<br><br>- Fan wen wedi parcio yn Stryd Tudor ers tro heb drwydded addas – Clerc i wirio gyda'r Heddlu<br>- Holwyd os oes modd cael arwydd yn nodi parcio i breswylwyr yn unig. Clerc i holi Adran Priffyrdd<br><br>**RJ** – holodd am ddiweddariad am drwshio'r wal ger Maes Cynhelyn. Clerc i holi ymhellach. |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | **IW –** Carolyn yn y Caffi yn holi os caiff waredu cadeiriau gwreiddol y Caffi gan ei bod wedi derbyn cyflenwad o rai cryfach a mwy addas. Cytunwyd rhoi caniatad iddi drefnu fel bo'n hwylus. Cytunwyd hefyd i DAW holi Meirion Grieves am ail-osod slabiau rhydd o gwmpas y safle.<br><br>**TAJ –** cyferiodd at gi sy'n cyfarth a dychryn plant mewn ffenest ty ger Capel Ifan. Nododd y Clerc bod hyn wedi ei ddwyn i'w sylw eisoes.<br>- Cyfeiriodd at gyfarfod y bu ynddo'n ddiweddar lle oedd swyddog o Undeb Peldroed Cymru yn canmol y Cyngor Cymdeithas am ei flaengarwch yn derbyn cyfrifoldeb am CPD Llannerchymedd drwy'r broses Trosgwyddo Asedau gan CSYM<br><br>**DAW –** cyfeiriodd at fudreddi baw ci sydd ar y pafin o'r Ysgol i gyferiad Tan y Foel. Nododd y Clerc bod goheniaeth i law am faw ci yn cael ei adael (mewn bag) yn ardal chwarae Cae Gofeb. Cytunwyd i'r Clerc archebu rhagor o focsus dal bagiau baw. Nododd Cyng JL bod fan Warden Cwn CSYM ar gael i ymweld a phentrefi a chytunodd i holi ymhellach a dod 'nôl at y Clerc. |
| 5 | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mai**<br>Noddi Taith Gerdded Tomos Jones £100.00<br>a gytunwyd trwy ebost<br><br>Scottish Power – Uned 2 £26.94<br>Uned 1 £97.56<br>(noder bod Menter Môn yn ad-dalu'r biliau ers Hydref 2021 Clerc i newid y manylion ar y biliau i Menter Môn)<br><br>Ad-daliad arian parod i'r Clerc am drefnu rhoddion ar fyr rybudd ar gyfer dathlu Jiwbili y Frenhines £80.00<br>Maes Athen a Maes Cyhelyn.<br>(nodwyd bod Laura Owen wedi anfon llythyr o ddiolch ar ran Maes Cyhelyn – Clerc i'w gychredeg a bod Emma Young wedi diolch ar lafar dros Maes Athen)<br><br>Wybone – cyflenwad o fagiau baw ci – 2 becyn 400 bag £122.38<br><br>**Biliau cyfredol**:<br>Williams Bros – trwshio ffenest Eglwys Ceidio<br>- nwyddau £72.58 Llafur £50<br>Symud, gosod a gwaredu meinciau Glan Menai |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | – nwyddau £69.53  llafur £120<br>Cyfanswm £312.11<br><br>Cyflog Clerc Ebrill; Mai; Mehefin  - 3 mis £1633.47<br>Taliadau  ZOOM x 3 mis £43.17; £1676.64<br><br>Adrododd y Clerc bod £18863.64 yn y cyfrif cyfredol ar 29.6.22 a bod £11.433.93 yn y cyfrif cadw.  Nododd bod £8k o'r cyfrif cadw wedi ei glustnodi ar gyfer gwaith llwybrau'r Fynwent Gyhoeddus sydd wedi dechrau ddoe.  Cydnabuwyd y gall y swm yma fod yn uwch gan fod peth amser ers derbyn y cwôt gwreiddiol.<br><br>Cytunwyd a'r amcangyfrif o £1440 i osod arwyddion croeso mewn 3 man ar y ffordd mewn i Llannerchymedd.  Clerc i holi os ydy 2 arwydd Carmel yn y gost; oes rhaid cael rheolaeth traffig ac ydy'r pyst yn gynwysiedig. |
| **7.** | **Materion Cynllunio**<br><br>- **Cais HHP/2022/167 – Tyddyn Goeden –** dim gwrthwynebiad<br>- **Cais 25C25K Parc Newydd –** manylion tysytysgrif cyfreithlondeb  - er gwybodaeth yn unig<br>- **Cais FPL/2021/198 Bryn Gollen Newydd –** hwn wedi ei wrthod gan CSYM<br>- **Cais HHP/2022/184 – Tyddyn Berllan** – dim gwrthwynebiad |
| **8** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>**Pwyllgor Ardal Unllais 7.7.22 –** nododd y Clerc nad oedd ar gael i fynychu y cyfarfod hwn oherwydd ymrwymiad arall. Nid ddaeth enw amgen i law ond,pe byddai rhywun am fynychu, dylid rhoi gwybod i'r Clerc er mwyn iddi anfon y papurau perthnasol ymlaen.<br><br>*Daeth y cyfarfod i ben am 8.50* |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG**
Ffôn:  01248  470383
sydnaroberts@btinternet.com